

Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at Menna Owen (Cefn Meiriadog) a Bessie Owens (Cefn Berain) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Da clywed bod Beti Williams (Llansannan) wedi cael dod adre o'r ysbyty erbyn hyn. Cyflwynwn y tair, ynghyd ag eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd gan ofyn Iddo gysgodi drostynt, a gwylio dros eu hanwyliaid yr un modd.

Rhifyn Olaf y Tymor Hwn

Gan na fydd oedfaon yn yr eglwysi unigol ar ddydd Nadolig nac ar ddiwrnod cynta'r flwyddyn newydd, un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi eleni, felly anfonwch fanylion unrhyw gyfarchion arbennig neu gyfarfodydd sydd i ddiwydd o hyn i lonawr 8fed erbyn nos Fercher nesaf, os gwelwch yn dda.

I ddod

- **'AWN I FETHLEHEM'** – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan nos Lun, Rhagfyr 19eg am 7.30.
- **CLWB CINIO A DATHLIAD 'DOLIG** gyda gwahoddiad arbennig i'r holl aelodau yng Nghapel Cefn Berain dydd Llun, Rhagfyr 19eg am 12.00. Dewch atom i fwynhau pryd Nadoligaidd!
- **CYFARFOD GWEDDI'R FRO** yng Nghefn Meiriadog nos Fawrth, Rhagfyr 20fed am 7.30.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn **am 9.30**.
- **SWPER NADOLIG Y GRWPIAU CANOL WYTHNOS / OEDFA'R FRO** yn Festri Llansannan, nos Fercher, Rhagfyr 28ain am 7.30. Cysylltwch â Mair **erbyn dydd Llun, Rhagfyr 19eg** i roi eich enwau ac i drefnu'r bwyd, os gwelwch yn dda.
- **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R FRO** o amgylch y llyn yng Nghwm Idwal, dydd Iau, Rhagfyr 29ain. Mae'r llwybr yn wastad ond yn eithaf amrwd, felly bydd angen esgidiau cerdded neu wellingtons ar bawb sy'n bwriadu dod. Ein bwriad yw galw i weld Capel Nant y Benglog yng Nghapel Curig am 10.30, sef y capel bychan lle roedd Rhodri yn aelod cyn iddo ddod i Llansannan, ac yna cyfarfod ym maes parcio Cwm Idwal am 11.00 i gychwyn y daith gerdded fydd yn para oddeutu awr, ac yna (gan nad oes lle addas i gael picnic ger y llyn), mynd i gael cinio (neu fyrbryd) yng ngwesty'r Waterloo ym Metws y Coed erbyn tua 12.45–1.00. (Nid yw'r daith gerdded yn addas ar gyfer unrhyw un sy'n ansad ar ei draed, nac ar gyfer unrhyw beth ar olwynion, ond croeso i bawb ddod i weld y capel ac i dreulio amser ym Metws y Coed nes medrwn ail-ymgynnull amser cinio os byddwch yn dymuno hynny.) ***PWYSIG*** Rhowch eich enw i Mair **erbyn dydd Llun, Rhagfyr 19eg** os ydych am ymuno â ni fel y gallwn archebu cinio ymlaen llaw (holwch Mair am fwydlen), a gwneud trefniadau parcio os am fynd i weld y capel. Os bydd y tywydd yn anffafriol, medrwn gysylltu â Mair neu edrych ar dudalen flaen y wefan i weld a fydd y daith ymlaen ai peidio.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 11^{eg} Rhagfyr 2016

Darlleniad y Dydd

Eseia 11:1-5

(BCND tud.629 / BCN tud.574)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso cynnes i chi i gyd i'r oedfaon ym Mro Aled heddiw. Gweddiwn y byddwn ni'n cael rhyddid i addoli Duw a dod i'w adnabod yn well ar ôl clywed ei Air. Mae'r Nadolig bron ar ein pennau a gobeithiwn y medrwn ymuno â ni ar gyfer Gwasanaeth Carolau a Phlygain Bro Aled heno.

Mae ein darlleniad heddiw (Eseia 11:1-5) yn canolbwyntio yn llwyr ar un person – “un brigyn newydd yn tyfu o foncyff Jesse”. Yn y cyfnod yma mae Eseia yn proffwydo, roedd Israel mewn sefyllfa go fregus gyda theyrnas mawr a phwerus Asyria yn bygwth arni. Mae'r bennod yma'n cyfeirio at gyfnod gwell – cyfnod o heddwch gyda llinach frenhinol Israel yn dal yn gyfan. Tybed allwn ni uniaethu gyda'r addewidion sydd yma?

Oherwydd eu anffyddlondeb crefyddol, roedd brenhinoedd Israel wedi troi eu cefnau yn llwyr ar Dduw. Roedden nhw'n dibynnu yn llwyr ar eu gallu eu hunain. Roeddent felly yn gweld eu teyrnas yn symud yn bellach o'r lle yr oedd hi i fod – yn sanctaidd ac yn arwain y bobloedd eraill at yr Arglwydd. Roeddent yn anufudd i'r Arglwydd. Roeddent yn barnu yn anghyfiawn – yn aml yn ceisio cynyddu eu pŵer eu hunain yn hytrach na gwasanaethu Duw a'r bobl. Roeddent yn caniatáu i bobl ddrwg gael eu ffordd heb gosb. A fedrwn ni uniaethu gyda'r geiriau yma? Ar lefel wleidyddol, ydan ni'n gweld fod yr un peth yn wir heddiw? Tybed ydan ni'n teimlo ein bod ni'n anffyddlon i Dduw?

Ond! Mae neges Eseia yn un o obaith, nid yn un ddamniol. Mae'n dweud, er fod y pethau hyn yn wir – er fod eich llywodraethwyr yn anffyddlon i Dduw ac yn anghyfiawn; er fod eich galwad fel petai'n syrthio i ddarnau, mae Duw yn dal yn ffyddlon. Mae Duw yn mynd i anfon un i reoli fydd yn llawn ysbryd Duw – llawn doethineb, strategaeth a defosiwn a pharch at yr Arglwydd. Bydd yr un yma wrth ei fodd yn gwasanaethu'r Arglwydd. Bydd yn teyrnasu'n gyfiawn ac yn ffyddlon. Tybed ydan ni'n gweld angen ar gyfer rhywun fel hyn? Tybed ydan ni angen rhywun fel yma i deyrnasu dros ein bywydau ni?

Newyddion da yr Efengyl i ni y bore yma ydi bod un o linach frenhinol Israel – gwreiddyn Jesse yn bod. Mae un sydd yn teyrnasu'n gyfiawn a ffyddlon. Mae un sydd wedi gwneud iawn am ein pechodau ar Groes Calfaria sef Iesu Grist! Mae'r gwahoddiad i ni ddod yn rhan o'i deyrnas di-ddiwedd ar gael yn rhad ac am ddim.

DILYNWCH NI: [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

Gwion


Darlleniad Wythnos Nesaf

Ioan 1:14-18 (BCND tud.99 / BCN tud.91)

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 11^{eg}



Gwasanaeth Carolau a Phlygain Eglwysi Bro Aled

Nos Sul, Rhagfyr 11eg
am 6.00
yng Nghapel Coffa Henry Rees,
Llansannan

Mawrth – 13^{eg} ➤ **Torri Syched** (seiat i'r dynion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 7.30.

➤ Cynhelir **Cyfarfod Chwiorydd Groes, Nantglyn a Pheniel** yn Ffestri Groes am 7.30 pryd y bydd Linda Jones o Ddinbych yn gosod blodau.

Iau – 15^{fed} ➤ Bydd **Parti Nadolig Cyfarfod Plant Llansannan** a Pharti Nadolig Adran yr Urdd yn cael ei gynnal ar y cyd yn y **Ganolfan** rhwng 3.15-4.45.

➤ **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer yr ieuencid sydd wedi dangos diddordeb i gael eu derbyn yn aelodau) yn y Granar, Llansannan o 7.30 - 9.00.

➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.

Gwener – 16^{eg} ➤ **Posh Nosh – Parti Nadolig C.I.C.** yn Llansannan am 7.30.

Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Ni fydd **Oedfa i'r Fro** heno. Cynhelir yr Oedfa i'r Fro nesaf ar fore Nadolig yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn **am 9.30**, ac yna yng Nghapel Llanefydd, bore Sul, Ionawr 1af am **10.30**.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 11^{eg} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Mawrth – 13^{eg} ➤ Cinio Nadolig a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15.

Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd paned a mins pei i ddilyn. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig i'r teulu yn Llanfair am 11.00 a bydd Parti Nadolig i bawb yn y Neuadd Goffa i ddilyn.

Llansannan a Nantglyn

Sul yma – 11^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa Sul y Beibl yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Mawrth – 13^{eg} ➤ Cinio Nadolig Jangl yn Ysgol Bro Aled, Llansannan am 12.00. (*Sylwch ar y newid diwrnod.*) Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Rhagfyr 11eg**, os gwelwch yn dda.

Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Bydd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr oedolion am 10.00. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00 a bydd y Parti Nadolig yn dilyn yn y **Ganolfan**. Plis cysylltwch â Trebor Roberts (870221) os gallwch gyfrannu at y bwyd. Croeso i bawb!
➤ Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

Sul yma – 11^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00, a bydd y plant yn ymarfer ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuencid yn Saron am 11.00. Bydd y Parti Nadolig yn dilyn y gwasanaeth a disgwylir y bydd Siôn Corn yn ymweld. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig ym Mheniel am 11.00 a bydd paned a sgwrs i ddilyn yn y Ffestri.

Henllan a Groes

Sul yma – 11^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion yn Groes ac yn Henllan am 10.00.

Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Nadolig yno am 2.00. Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10.30, a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Ffestri.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 11^{eg} ➤ Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg ag oedfa'r bore yng Nghefn Berain.

Sul nesaf – 18^{fed} ➤ Bydd Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Berain am 10.30 gyda'r Parti Nadolig yn dilyn. Yn yr un modd, bydd Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.30 yng nghwmni Rhodri, gyda'r casgliad yn cael ei gyfrannu fel nawdd i'r daith gerdded o Fethlehem i'r Aifft tuag at waith Cymorth Cristnogol. Bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Neuadd. Yna, bydd Gwasanaeth Carolau Undebol Llanefydd yn yr Eglwys am 6.30.